OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 466 (Cy.41)

PRIFFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*22 Chwefror 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*25 Chwefror 2008*
Yn dod i rym - -	*12 Mai 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 48(2), 95A(5), 97 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**) (a pharagraffau 2, 4(1), 5(2), 8(a) a 9(b) o Atodlen 4B iddi) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2008. Deuant i rym ar 12 Mai 2008 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008(**3**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn y testun Cymraeg, yn Rheoliad 5(3), rhodder y gair "brintiedig" yn lle'r gair "brintiadwy".

(**1**) 1991 (p.22.) Mewnosodir adran 95A ac Atodlenni 4A a 4B gan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p.18) ("Deddf 2004"), adran 41 ac Atodlenni 2 a 3. Amnewidiwyd adran 97 yn rhagolygol gan adran 64(4) o Ddeddf 2004. Yn rhinwedd paragraff 26 o Atodlen 11 a pharagraff 7 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru gael cydsyniad y Trysorlys i arfer swyddogaethau o dan baragraff 8(a) o Atodlen 4B i Ddeddf 1991.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol (ac eithrio swyddogaethau o dan adran 167(3)) o dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf 1991 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) SI 2008/102 (Cy.15)